HORIZON NUCLEAR POWER

A UK company of E.ON and RWE

Horizon Nuclear Power
5210 Valiant Court
Gloucester Business Park
Delta Way, Gloucester, GL3 4FE
T +44 (0) 845 300 6816

ENERGY WORKING FOR BRITAIN

NEWS RELEASE

**Ionawr 2012**

# Dyddiad a lleoliad yn cael ei gyhoeddi ar gyfer cymhorthfa agored Wylfa ym mis Ionawr

**Bydd Horizon Nuclear Power (Horizon) yn cynnal ei Gymhorthfa Agored gyntaf yn 2012 yn Neuadd Bentref Cemaes, 23 Ionawr. Bydd cyfle i bobl leol ofyn cwestiynau am gynlluniau'r cwmni ar gyfer gorsaf bŵer niwclear newydd yn Wylfa.**

Yn yr un modd â digwyddiadau yn y gorffennol, bydd Cymhorthfa Agored mis Ionawr yn rhoi cyfle i bobl gyfarfod â thîm y prosiect, a chael rhagor o wybodaeth am y datblygiad newydd arfaethedig.

Bydd y gymhorthfa yn digwydd rhwng 1pm a 7pm ar 23 Ionawr yn Neuadd Bentref Cemaes.

Dywedodd Alan Smith, Pennaeth Datblygu Safleoedd Horizon: "Roedd ein Cymorthfeydd Agored yn hynod o boblogaidd yn 2011, ac rydym yn edrych ymlaen at gymhorthfa gyntaf 2012. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y prosiect, neu os ydych chi am gael gwybod rhagor am ein gweithgareddau presennol, mae croeso i chi ddod draw am sgwrs."

Gall unrhyw un sydd â chwestiynau am y prosiect gysylltu â thîm Wylfa hefyd drwy ffonio'r llinell gymorth ar 0800 954 9516 neu drwy anfon e-bost i ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com

**DIWEDD**

**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:**

Richard Foxhall – 07807 769265 neu
richard.foxhall@horizonnuclearpower.com

Leon Flexman – 07989 493320 neu leon.flexman@horizonnuclearpower.com

Claire Loveday – 07717 300379 neu claire.loveday@horizonnuclearpower.com

**Nodiadau i olygyddion**

Horizon Nuclear Power Ltd . Mae Horizon Nuclear Power yn fenter ar y cyd a sefydlwyd yn 2009 gan E.ON UK a RWE npower. Mae'r cwmni wrthi'n datblygu cynigion ar gyfer gorsafoedd pŵer niwclear newydd yn Wylfa ar Ynys Môn ac yn Oldbury-on-Severn yn Swydd Gaerloyw.

Byddai gorsaf bŵer niwclear newydd yn Wylfa yn cyflenwi digon o drydan carbon isel ar gyfer dros 5 miliwn o gartrefi. Disgwylir y byddai oddeutu 5000 o bobl yn cael eu cyflogi yn ystod y cyfnod adeiladu ac oddeutu 800 o swyddi parhaol yn cael eu creu pan fydd yr orsaf bŵer yn weithredol. www.horizonnuclearpower.com